## Gair gan y Prifathro



Cymeraf y cyfle hwn i ysgrifennu atoch i ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y tymor hwn.  Eleni eto, mae wedi bod yn braf iawn gweld disgyblion o bob oedran yn rhyngweithio gyda'i gilydd ar draws yr ysgol gyfan, ac mae gweld hyn ar waith yn parhau i roi gwefr i mi fel Prifathro balch yr ysgol. Fel y gwyddoch rydym newydd gael ymweliad interim gan Estyn fel rhan o'i fframwaith arolygu newydd.  Rydym yn falch i rannu gyda chi ein bod wedi derbyn adborth gadarnhaol iawn a byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant yma yn y flwyddyn newydd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll fel teulu ac edrychwn ymlaen yn fawr fel ysgol i barhau i gydweithio fel un gymuned yn y flwyddyn newydd.

**Yr Ysgol Isaf**

Cafodd yr Ysgol Isaf groeso cynnes iawn gan Gapel Salem yn ystod hanner tymor yr Hydref. Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch gan y Fforwm Iechyd a Lles. Casglwyd llwyth o fwyd ar gyfer y banc bwyd hefyd, diolch yn fawr i'r rheini a'r staff am eu rhoddion hael.







Cafodd disgyblion blwyddyn 3 i 6 gyfle gwych i arddangos eu sgiliau coginio yng nghystadleuaeth Cogurdd. Roedd y bwyd yn edrych yn fendigedig ac roedd pawb wedi ymdrechu'n galed. Da iawn bawb!





Ar daith i Sain Ffagan, dysgodd plant blwyddyn 1 a 2 am draddodiadau siopa yn yr hen ddyddiau, aethon o gwmpas yr hen dai a dysgu an draddodiadau Nadoligaidd hefyd. Roedd hi'n ddiwrnod bendigedig.

Llongyfarchiadau anferthol i Harper Lee o flwyddyn 3 sydd wedi cael ei dewis i chwarae pêl-droed i dîm Aston Villa. Mae dyfodol disglair iawn o dy flaen ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ddilyn dy yrfa lewyrchus!




Martyn Geraint oedd wedi diddanu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn y Jambori. Cafwyd bore llawn hwyl a sbri yn canu'r holl ganeuon adnabyddus! Roedd pawb yn morio canu 'afal, oren, banana'!




Faint o'r teganau yma ydych chi'n eu cofio?
Yn ystod gweithdy hen deganau, dysgodd disgyblion y Derbyn, blwyddyn 1 a 2 am ddatblygiad teganau dros amser!










Noson frawychus llawn hwyl a chwerthin a gafwyd yn y Disgo Calan Gaeaf eleni. Roedd y gwisgoedd yn ddychrynllyd ac roedd pawb wedi mwynhau dawnsio ac ymuno yn y gemau a ddarparwyd gan ddisgyblion blwyddyn 12.









Mae'r côr wedi cael tymor prysur ond llwyddiannus iawn. Cystadlon nhw yn Eisteddfod y Rhondda, Eisteddfod y Cymoedd a pherfformiwyd yn Ffair Nadolig Garth Olwg ac Efail Isaf. Cawsom fore hyfryd o ganu ar iard yr Ysgol Isaf hefyd.







**Yr Ysgol Ganol**





Bu'r bechgyn yn cystadlu yng nghystadleuaeth bêl-droed yr Urdd ar ddechrau mis Hydref. Er eu bod wedi brwydro'n ffyrnig a chwarae yn arbennig o dda – yn anffodus, colli wnaethon nhw yn y rownd derfynnol.

Cawson ni'r cyfle i fod yn rhan o ymgais i dorri record y byd am ysgrifennu cerdd yn Saesneg. Daeth Miss Rose i lawr i'r Gorlan i arwain y sesiwn a gyda chymorth Dr Williams, a oedd yn cadw llygaid ar y rheolau llym, llwyddon ni i fod yn rhan o'r gerdd orffenedig drwy gynnig syniadau i'r bardd a phleidleisio dros ein dewisiadau. Diolch enfawr Miss Rose am drefnu'r gwaith yma!



Ar ddiwrnod 'Shw'mae!, Su'mae!', aeth aelodau'r côr i'r Ganolfan Gydol Oes er mwyn canu i'r dysgwyr Cymraeg oedd wedi ymgynnull yno. Yn rhan o'n hymweliad, bu'r plant yn gofyn cwestiynau iddynt ac yn eu helpu i ymarfer siarad Cymraeg.



Buom yn mwynhau sesiwn ddawns dan hyfforddiant arbenigwr o Eventbrite o'r enw 'Sesiwn ddawns Thriller rhithiol'. Cawson ni lawer o hwyl yn meistroli'r symudiadau!



Ar ddiwedd mis Hydref bu nifer helaeth o'n dysgwyr yn cystadlu yng nghystadlaethau COGURDD a PHOBURDD. Tasg y plant ar gyfer POBURDD oedd i greu 4 myffin, a'r dasg ar gyfer COGURDD oedd i baratoi 'wrap'. Roedd y dasg o ddewis enillwyr yn eithriadol o anodd – ond yn y diwedd – Phoebe o Flwyddyn 6 ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth POBURDD, ac Elsi o Flwyddyn 6 ac Eva o Flwyddyn 5 yng nghystadleuaeth y COGURDD.












Yn ystod y flwyddyn hon, byddwn yn cydweithio ac yn cynnig ein harsylwadau am wahanol lyfrau Cymraeg. Rydym eisoes wedi cynnig ein barn am ddau lyfr Cymraeg o'r enw – Ac rwy'n clywed Dreigiau (sef llyfr dwyieithog sy'n llawn cerddi am ddreigiau) a Digon o Sioe (sy'n llyfr doniol ac yn rhan o gyfres Fferm Cwm Cawdel). Cyflwynodd Mrs Widgery ein syniadau a'n hadborth i'r awduron, y cyhoeddwyr ac i'r Cyngor Llyfrau. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith dros weddill y flwyddyn ysgol.

Yn gynnar ym mis Tachwedd, aeth sawl tîm o ferched ein hadran i gystadleuaeth bêl-droed yr Urdd. Daeth un o'r timau yn fuddugol a Flo Kavanagh-Reid o flwyddyn 5 oedd chwaraewr y twrnamaint. Bydd y tîm yn chwarae eto yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth, gwanwyn nesaf. Pob lwc ferched!









Daeth y prifardd Gwynfor Dafydd i'r ysgol. Ein hysgol ni oedd wedi casglu'r arian ar gyfer creu'r goron a enillodd Gwynfor yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd eleni. Roedd y goron yn hardd dros ben. Eglurodd Gwynfor beth oedd ystyr y gwahanol symbolau a oedd arni, ac yna cafodd pawb y fraint o wisgo'r goron a theimlo fel bardd! Gwnaeth hefyd sesiwn farddoni a chwestiwn ac ateb gyda disgyblion Blwyddyn 11 a 12. Diolch enfawr Gwynfor!







Ar y 10fed o Ragfyr bu holl ddisgyblion B5 a 6 yn perfformio eu sioe Nadolig – 'Beth ar y Ddaear? Ffrindiau Cosmig?' yn y Theatr. Hoffai bawb ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth ddiflino, darparu gwisgoedd godidog a dod i wylio ein perfformiadau. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau a'ch bod yn parhau i roi 'Moliant i'r Mul' ac yn 'Gwneud yr asyn' o hyd!



Aethon ni ar daith hwyl i sinema Showcase yn Nantgarw i wylio'r ffilm ELF ac yna draw i Tenpin er mwyn cael chwarae gêm o fowlio deg. Cawson ni amser braf gyda'n gilydd….er bod Mrs Widgery wedi bygwth fod yr enillwyr yn gorfod gwneud prawf sillafu ar ôl dychwelyd i'r ysgol!









Aethon ni i i'r ystafelloedd coginio er mwyn defnyddio ein sgiliau rhifedd, llythrennedd a chydweithio. Dilynon ni gyfarwyddiadau a ryseitiau er mwyn creu mins peis, teisennau malws-melys siâp coeden, a bisgedi dynion eira. Cawson ni hwyl…er y llanast!





**Dathlu'r Nadolig**

Ar ddydd Gwener, Rhagfyr y 13eg cawson ni ddiwrnod prysur dros ben. Bu aelodau'r côr yn canu ar iard yr Ysgol Isaf tra bod rhieni yn dod â'u plant i'r ysgol. Gwisgodd pawb siwmperi Nadolig, felly roedd yr ysgol yn lliwgar tu hwnt ac roedd cystadleuaeth frwd am y siwmperi Nadolig gorau. Amser cinio oedd y cyfnod gorau….cael mwynhau cinio Nadolig gyda'n gilydd yn y ffreutur. Diolch i staff y gegin am y bwyd blasus iawn!









**Mandarin**

Llynedd, cafodd rhai o'n dysgwyr o flynyddoedd 5 a 6 y profiad o gymryd rhan mewn cystadleuaeth Mandarin. Bu'r plant yn dysgu caneuon Mandarin, symudiadau Kung Fu a dawnsfeydd traddodiadol. Llwyddodd un o'r grwpiau i gyrraedd y rownd gyn-derfynnol, ond llwyddodd y grŵp arall i gyrraedd y rownd olaf. Er na enillon ni, roeddem yn falch iawn o gael cymryd rhan a dysgu am draddodiadau a diwylliant gwlad arall. Hoffem ddiolch i Wan am ei hyfforddiant a'i gwersi llawn hwyl!

**Ymweliad Marcelle**

Ar ddiwedd Mis Tachwedd daeth ymwelydd, Marcelle Dos-Santos i ymweld â ni fel rhan o'n gwaith ar Fis Hanes Pobl ddu. Trafododd hi am gymunedau a diwylliant fel rhan o'r thema'r flwyddyn yma o 'Hawlio'n Hanes yn Ôl'. Ffeindiais i'r pwnc yn ddiddorol iawn ac rydw i'n meddwl dysgodd pawb llawer ganddi. Dysgom ni am ble bynnag ydych chi a beth bynnag rydych chi'n gwneud dydy eich diwylliant ddim yn newid a phwysigrwydd peidio anghofio am eich diwylliant ac i weithio gyda'ch cymuned. Joiais i'r drafodaeth yn fawr a dysgais i lawer. (Ava Carrol Bl.6) Mae Marcelle wedi dod mewn i siarad gyda ni am gymunedau a diwylliant. Roedd pawb wedi mwynhau. Rydym ni'n edrych ymlaen pob blwyddyn i Marcelle ymweld. – Logan Watts (Bl.6)



Fel rhan o waith Marcelle gwnaeth hi hefyd gynnal gwasanaeth gyda'r Ysgol Uchaf yn rhannu ei stori bersonol hi gan gynnwys yr heriau a llwyddiannau yn ystod ei bywyd. Roedd neges Marcelle yn un bwysig gan bwysleisio rôl cymunedau i adeiladu ac ein cynnal, tra'n hefyd cyfeirio at ddyfalbarhad trwy heriau i lwyddo. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu Marcelle yn ôl fel rhan o brosiect ehangach yn yr ysgol Ganol yn y flwyddyn newydd.

Diolch yn fawr Marcelle!

**Llwyddiannau yr Adran Saesneg**




Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 7 sydd wedi anelu'n uchel a chymryd rhan yn y gystadleuaeth ysgrifennu creadigol 'Young Writers.'



Mae criw o flwyddyn 9 wedi gweithio'n galed wrth baratoi am 'Seren Debate': Lloyd Chalk, Noah James, Mai Pearce, Erin Harris, Isabella Collins. Pob lwc i chi yn y gystadleuaeth ddiwedd Ionawr!

Da iawn i'r criw o ddisgyblion a gymerodd rhan yn y Gystadleuaeth Ieithoedd Cenedlaethol gan GHQ. Roedd e'n her anodd gyda disgyblion yn datrys problemau a chodau ieithoedd amrywiol. Da iawn am fod mor uchelgeisiol! Cafwyd gwaith da gan bob disgybl sy'n astudio Saesneg ym mlwyddyn 12 wrth gymryd rhan yn y gystadleuaeth 'Tower Poetry'.



**Gweithdy Only Boys Aloud**

Cafodd bechgyn blwyddyn 7 lawer o hwyl yn y gweithdy Only Boys Aloud. Roedd llawer o ganu a gemau wedi cael eu chwarae a phawb wedi mwynhau mas draw. Diolch i Iori a James am ddod draw gyda'u hegni heintus.


**Gŵyl Morfydd Owen**



Er mwyn dathlu bywyd y gyfansoddwraig Morfydd Owen cynaliwyd gŵyl o gwmpas Pontypridd gyda llawer iawn o weithgareddau gwahanol wedi ei threfnu. Roedd Ysgol Garth Olwg yn rhan o'r gyngerdd a oedd ar y Dydd Sul a chafwyd perfformiadau safonol iawn gan Miley Goss a Cadi Desouza. Gwych oedd cael bod yn rhan a diolch i'r merched am berfformiadau mor arbennig.

**Taith Paris**

Roedd disgyblion yr Ysgol Uchaf wedi cael modd i fyw ar y daith i Baris. Ymwelwyd â marchnad Nadolig yn ogystal â gweld rhai o atyniadau mwyaf enwog Paris fel y Tŵr Eiffel a'r Arc de Triomphe. Uchafbwynt yn sicr oedd y diwrnod yn Disneyland Paris gydag eira ffug a chymeriadau Disney wedi gwisgo mewn gwisgoedd Nadoligaidd. Braf oedd cael y cyfle i fwyta bwydydd Ffrengig ac ymarfer yr iaith.











**Gweithdy Cyfansoddi 'Music Theatre Wales'**

Diolch yn fawr i 'Music Theatre Wales' am ddod i mewn i rannu gwybodaeth am y prosiect cyffrous newydd ynglŷn â chyfansoddi ar gyfer Sioe. Roedd disgyblion Cerddoriaeth TGAU wedi mwynhau'r perfformiad yn ogystal. Cyfle gwych i gael perfformiad byw.









**Sumae Shwmae**
Er mwyn dathlu Sumae Shwmae cynhalion ychydig o berfformiadau cerddorol er mwyn dathlu'r dydd. Gwnaeth y côr ac unawdwyr berfformio yn y Ganolfan Gydol Oes yn nigwyddiad Cyngor RCT oedd yna a gwnaeth y band Rhyddid gynnal gig i flwyddyn 7 i gyd. Gwych oedd cael band o ddisgyblion blwyddyn 11 yn perfformio i'r disgyblion. Roedd pawb wedi mwynhau dros ben!




**Ffair Nadolig Canolfan Gydol Oes Garth Olwg**
I ddechrau dathliadau'r Nadolig roedd disgyblion Ysgol Garth Olwg wedi perfformio yn Ffair Nadolig Canolfan Gydol Oes Garth Olwg. Roedd yn ddiwrnod hyfryd lle'r oedd y Fforwm Cydraddoldeb wedi bod yn gyfrifol am stondin losin ac addurniadau Nadolig yr Ysgol ac roedd gwledd o ganu gan y disgyblion.





**Cerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru**
Cafodd Rhys, Kristina a Twm brofiad arbennig wrth fod yn rhan o Gerddorfa Ysgolion De Cymru ym mis Tachwedd. Cafwyd y profiad o berfformio yn Neuadd yr Hoddinott yng Nghanolfan y Mileniwm. Hefyd llongyfarchiadau i Twm am berfformio  unawd piano.





**Cystadleuaeth Rotari Lleisiol**



Ym mis Tachwedd perfformiodd Miley a Cadi yng nghystadleuaeth Rotari lleisiol y sir. Roedd yn brofiad arbennig i'r ddwy a chafwyd llawer o ganmoliaeth am y perfformiadau.




**Noson Garolau**
I ddathlu tymor llwyddiannus gwnaethom gynnal Noson Garolau ar gyfer dangos doniau'r ysgol. Gwych oedd cael y disgyblion yn perfformio mor arbennig ac yn gallu dangos llawer o dalentau gwahanol.



**Cydraddoldeb Wythnos Gwrth-fwlio.**



I godi ymwybyddiaeth o'r wythnos gwrth-fwlio roedd y Fforwm Cydraddoldeb wedi dosbarthu negeseuon caredig o gwmpas yr ysgol er mwyn hyrwyddo positifrwydd. Yn ogystal â hyn roeddem wedi creu fideo cadarnhaol o ddisgyblion ac athrawon ar gyfer codi calonau pawb. Gwelir y rhain a'r holl weithgareddau ar ein cyfrif Instagram @cydraddoldebgarth_olwg.











**Radio Garth**

Er mwyn hybu Cymreictod rydym wedi dechrau Radio Garth Olwg yn yr Ysgol. Hoffwn ddiolch i Annie ac Ellie wnaeth bodlediad yn trafod Diwrnod Hawliau Dynol, sgwrs ddifyr iawn ganddynt. Hefyd i ychwanegu at fwrlwm y Nadolig - rydym wedi bod yn gwneud 'Flodolig'. Bydd fideo gwahanol yn cael ei ryddhau pob dydd i fyny at y Nadolig. Mae'r cynnwys yma i'w gweld ar ein cyfrif Instagram @radiogarth_olwg. Bydd llawer mwy o bodleidiadau yn cael ru creu yn yr flwyddyn newydd.



RADIO GARTH OLWG

**Calendr Adfent Caneuon Nadolig**

Dyma linc i galendr adfent o ganeuon Nadolig Cymraeg i ddathlu'r Nadolig. https://youtube.com/playlist?list=PLs0l326epvjwHqnGibhtVpZrn-0PSuRzz&si=5koXtPTvXdPYEUsr

**Parterniaieth gydag Ysgol Gwaun Celyn**

Bu digyblion Blwyddyn 10 a'r Ysgol Isaf yn brysur yn Ysgol Gwaun Celyn yn chwarae gemau Cymraeg gyda'r disgybion er mwyn hybu eu Cymreictod.





**Yr Adran Gemeg**

Cafodd disgyblion yr ysgol hefyd hwyl yng nghystadleuaeth Top of the Bench ym Mhrifysgol Abertawe.







Roedd Blwyddyn 12 a 13 wedi mwynhau ymweld â Phrifysgol Met Caerdydd ar gyfer y diwrnod blasu Troseddeg.








**Taith Glan-Llyn**

Roedd ein taith Blwyddyn 12 Safon Uwch Cymraeg i Lan-llyn yn wych ac yn gyfle arbennig i greu ffrindiau newydd, defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a datblygu hyder. Cymeron ni ran mewn nifer o weithgareddau hwylus megis y rhaffau uchel, gwyll-grefft a thalwrn yn ogystal ag ymweliad i'r Ysgwrn. Roedd gyda ni'r cyfle i fynychu cyfres o ddarlithoedd diddorol a gwerthfawr a fyddai o gymorth i ni yn yr Ysgol. Mwynheuon ni'r daith yn fawr iawn gan greu nifer o atgofion hyfryd. Gan Lauren Knight, Blwyddyn 12.





**Senedd Ieuenctid**



Llongyfarchiadau mawr i Ava Martin-Thomas ar gael ei hethol fel aelod y Senedd Ieuenctid ar gyfer Pontypridd. Byddi di'n wych yn dy rôl o fis Ionawr ymlaen!

**Taith Llangrannog**

Mwynheais Llangrannog oherwydd y cyfleoedd i wneud pethau newydd ac i wynebu ein hofnau. Ar y diwrnod cyntaf ar ôl cyrraedd roedd pawb yn gyffrous iawn. Bwyton ni ginio cyn mynd i mewn i ddosbarthiadau cofrestru. Yn gyntaf, dringon ni dŵr mawr gyda bag aer i neidio arni, dyna oedd fy hoff beth o'r diwrnod cyntaf. Roedd fy ystafell wedi mynd i gysgu yn weddol gyflym, heblaw amdanaf fi a rhywun arall. Ar yr ail ddiwrnod, gwnaethon ni lawer o bethau ond fy hoff beth oedd y go-cartio. Roeddwn i'n hoffi hwn oherwydd roeddwn i'n gallu mynd yn gyflym o gwmpas y cwrs. Roeddwn i hefyd yn hoffi'r rhaffau uchel a'r disgo yn y nos. Ar ôl hynny, roedd pawb yn ein hystafell wedi mynd i gysgu yn syth. Ar y trydydd diwrnod, roedd pawb yn flinedig ar ôl y disco, ond roedd pawb yn drist hefyd oherwydd roedden ni angen mynd adref. Roedd pawb yn brysur yn pacio yn y bore cyn brecwast. Gwnaethon ni ddau weithgaredd arall ac wedyn aethon ni adref. Gan Ioan Richardson, Blwyddyn 7













